



Dogfen Ymgynghori ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain

Ysgolion Uwchradd Cydaddysgol (Cymysg) yn Y Barri



Ymgynghoriad yng Nghyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

www.bromorgannwg.gov.uk

Dogfen Ymgynghori ar gyfer Ysgolion yr Unfed Garrif ar Hugain

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ystyried uno dwy ysgol uwchradd 'un rhyw' yn Y Barri - Ysgol Gyfun Y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren - er mwyn creu ysgol uwchradd gydaddysgol (sef cymysg) fawr, wedi'i rhannu rhwng y ddau safle.

Cyn ystyried y syniad hwn ymhellach, y mae'n rhaid i ni gael gwybod barn y rhai sy'n debyg o deimlo effaith y newid hwnnw fwyaf.

Crynhoi barn rhieni, disgyblion, trigolion lleol a chyfranogion eraill am y syniad o sefydlu ysgol gydaddysgol (gymysg) yn Y Barri yw diben yr ymgynghoriad hwn.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad wedyn ac yn penderfynu p'un ai a ddylid datblygu'r cynigion ar gyfer ysgol uwchradd gydaddysgol ai peidio. Yna, byddai'n rhaid ymgynghori ymhellach ar y cynigion.

Beth sy'n cael ei ystyried?

Ar hyn o bryd, y mae pedair ysgol uwchradd yn Y Barri:

- Ysgol Gyfun Y Barri** – ar gyfer bechgyn 11-16 oed – sy'n cynnwys 6ed dosbarth cydaddysgol (cymysg).
- Ysgol Gyfun Bryn Hafren** – ar gyfer merched 11-16 oed – sy'n cynnwys 6ed dosbarth cydaddysgol (cymysg).
- Ysgol Gyfun Babyddol Sant Richard Gwyn** – ar gyfer bechgyn a merched 11-16 oed.
- Ysgol Gyfun Bro Morgannwg** – ar gyfer bechgyn a merched 11 – 18 oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r arfer o addysgu bechgyn a merched mewn ysgolion ar wahân yn bodoli yn Y Barri ers tro byd bellach. Er ei bod yn drefn ddigon cyffredin yn y gorffennol, y mae'n mynd yn fwy anarferol yng Nghymru ar hyd yr amser erbyn hyn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y mae nifer o gynghorau wedi uno ysgolion a fu'n addysgu bechgyn a merched ar wahân, a'u troi'n rhai cymysg. O'r 220 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, 6 yn unig sy'n sefydliadau un rhyw.

Mae Cyngor Bro Morgannwg bellach yn ystyried cyfuno'r ddwy ysgol un rhyw'n ysgol gyfun fawr, ond cyn symud ymlaen, hoffem gael gwybod barn rhieni ar y mater.

Ni fu unrhyw ymchwilio manwl hyd yn hyn i sut y byddai'r ysgol gyfun (gymysg) yn gweithredu. Serch hynny, petai'r syniad yn cael ei ddatblygu, rhagwelwn y byddai'r ysgol unedig gydaddysgol (gymysg) yn sefyll ar ddau safle ysgolion cyfun presennol Y Barri a Bryn Hafren, gyda'r naill safle'n ysgol isaf a'r llall yn ysgol uchaf.



Sut gellwch fynegi eich barn ar y mater?

Mae sawl ffordd i chi gael dweud eich dweud am y mater.



- Cewch ateb a dychwelyd yr holiadur yn y llyfryn yma neu lenwi ein holiadur ar-lein drwy fynd i www.valeofglamorgan.gov.uk/consultation.
- Cewch fynegi eich barn mewn nifer o sesiynau 'galw i mewn' cymunedol yn Ysgol Gyfun Y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- Cewch gyfle hefyd yn ystod y sesiynau hyn i ofyn unrhyw gwestiynau nad oes atebion iddynt yn y llyfryn hwn.

Bydd rhaglen ymgynghori hefyd yn cael ei llunio'n unswydd er mwyn casglu sylwadau disgyblion y ddwy ysgol gyfun ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Beth fydd effaith fy sylwadau?

Mae eich sylwadau'n bwysig.



Ni fyddwn yn penderfynu'n derfynol ynglŷn â newid i addysg gymysg ar sail yr ymgynghoriad hwn. Defnyddiwn y canlyniadau'n hytrach er mwyn penderfynu p'un ai a ddylid datblygu cynigion manwl ar gyfer ysgol uwchradd gymysg yn Y Barri ai peidio.

Nid ydym am dreulio amser a gwario adnoddau wrth lunio cynllun manwl ar gyfer ysgol gymysg oni wyddom i sicrwydd bod y trigolion am ei chael.

Petai'r canlyniadau'n dangos bod digon o ddiddordeb a chefnogaeth i gyfiawnhau sefydlu ysgol uwchradd gymysg newydd yn Y Barri, byddai'n rhaid cynnal ail ymgynghoriad ar gynllun manwl ar gyfer uno'r ddwy ysgol.

Beth bynnag a fo eich barn ar y mater, cofiwch roi gwybod i ni.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr ymgynghori. Petai cefnogaeth i'r cynnig am newid i drefn addysgu gyfun (gymysg), byddem yn cydweithio â chyrff llywodraethu'r ddwy ysgol bresennol er mwyn datblygu cynigion manwl ar gyfer ysgol uwchradd gyfun yn Y Barri. Byddem yn ymdrin â materion fel: maint yr ysgol; y darpar gwricwlwm gyda golwg arbennig ar raglen y chweched dosbarth; trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion a'r cysylltiad





Dogfen Ymgynghori ar gyfer Ysgolion yr Unfed Garrif ar Hugain

ag ysgolion cynradd; gwneud y defnydd gorau o bob safle; buddsoddi angenrheidiol yn yr adeiladau; trefniadau ar gyfer ymgynghori ymhellach a threfniadau pontio.

Yn yr un modd, petai'r ymgynghori'n dangos bod yn well gan bobl yr ysgolion un rhyw presennol, ni fyddai unrhyw waith manwl yn cael ei wneud.

Cwestiynau a ofynnir yn aml

Pam mae'r Cyngor yn ystyried y newid hwn?



Mae'r ymateb a gafodd Tîm Derbyniadau'r Cyngor gan rieni, a'r sylwadau a ddaeth oddi wrth ysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn awgrymu na fyddai llawer o rieni erbyn hyn yn dewis addysg un rhyw ar gyfer eu plant.

Rydym am gael gwybod pa mor gyffredin yw'r syniadau hyn, ac felly'n ceisio pwysu a mesur y farn gyhoeddus drwy ymgynghori. Bydd yr ymgynghoriad o gymorth i ni ddeall barn y rhai sy'n debyg o weld effaith hyn i gyd, cyn i ni ddechrau ystyried unrhyw newid.

Oes unrhyw fantais i addysg gymysg?



Er bod llawer iawn o ymchwil wedi'i chynnal, nid oes unrhyw brawf pendant bod y naill drefn addysgu na'r llall yn rhagori'n gyson o safbwynt canlyniadau.

Mae merched a bechgyn Y Barri eisoes yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd mewn ysgolion meithrin a chynradd ac yn y chweched dosbarth. Byddai'r broses o bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn haws o bosibl am y gallai grwpiau o ffrindiau o'r ddau ryw aros gyda'i gilydd. Mae'n siŵr hefyd y byddai teuluoedd sy'n cynnwys merched a bechgyn yn ei chael yn haws ymwneud ag un tîm o staff ac un set o bolisiau a threfniadau. Dylai pob disgybl gael y cyfle i fanteisio ar gwricwlwm eang, cytbwys a chyffrous sy'n adlewyrchu eu dyheadau a'u hanghenion unigol. Mae'n siŵr y gallai ysgol gymysg fod o gryn gymorth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol disgyblion.

Bydd pob ymchwil berthnasol yn y meysydd hyn yn cael ei hystyried wrth gydweithio â chyrff llywodraethu yn y dyfodol.

Pryd y mae darpar ysgol gydaddysgol (gymysg) yn debyg o agor?

Cyn llunio amserlen ar gyfer agor ysgol newydd, byddai'n rhaid ateb y cwestiynau canlynol:- Ydy'r cyngor yn bwriadu datblygu'r cynigion? Faint o amser y byddai'n rhaid ei dreulio wrth y gwaith hwnnw? Faint o waith y byddai'n rhaid ei wneud er mwyn gweithredu'r cynigion? A oes nawdd ar gael i dalu am newid adeiladau presennol yr ysgol, petai angen?



Byddai'n rhaid cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio'n hawdd i ddisgyblion ymdopi ag ef. Eto i gyd, y mae'n bur annhebyg y byddai'r newid i addysg gymysg yn digwydd yn gyflym, hyd yn oed petai llawer iawn o gefnogaeth i'r syniad.

Ni fyddai'n bosibl gwneud unrhyw newidiadau chwaith cyn cynnal ail ymgynghoriad ar y cynigion manwl a dod i benderfyniad terfynol.

Beth fyddai'r effaith ar yr ysgol petai tref Y Barri'n tyfu?

Mae 1,160 o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Y Barri ar hyn o bryd, a 1,204 yn Ysgol Gyfun Bryn Hafren. Mae lle ar gyfer 1,423 o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Y Barri a lle ar gyfer 1,331 o ddisgyblion yn ysgol Bryn Hafren. Er bod llai o blant yn cael eu derbyn i ysgolion uwchradd ar hyn o bryd, y mae disgwyl i'w nifer gynyddu yn y dyfodol wrth i grwpiau blwyddyn mwy o faint symud ymlaen o'r ysgolion cynradd. Mae'n rhaid hefyd ystyried unrhyw waith sydd wedi'i drefnu ar gyfer codi tai. Petai cynigion manwl yn cael eu llunio, byddai maint yr ysgol yn cael sylw manwl.

A fyddai ysgol gymysg yn rhy fawr?

Mae nifer o ysgolion o'r maint hwn eisoes yn Lloegr, a chan edrych yn nes adref, gwelwn fod gan Ysgol Ramadeg Y Bont-faen ddigon o le ar gyfer 2,317 o ddisgyblion. Petai cefnogaeth i'r syniad o ddatblygu cynigion manwl, byddem wrth reswm, yn astudio'r ysgolion eraill hyn er mwyn cael deall sut y maent yn cwrdd ag anghenion disgyblion unigol.

A fyddai unrhyw newid i'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion?

Nid oes unrhyw fwriad i newid polisi'r cyngor ar gyfer derbyn plant i ysgolion.

Petai'r cynigion yn cael eu datblygu, y mae'n debyg y byddai'r holl fechgyn a merched a gafodd gynnig lle yn yr ysgol newydd yn ymuno â dosbarthiadau cymysg ym mlwyddyn saith. Byddai'r trefniadau ar gyfer grwpiau blwyddyn hyn yn cael eu datblygu fel rhan o'r cynigion manwl.

Petai'r ysgolion yn aros yn ysgolion un rhyw, ni fyddai unrhyw drefniadau newydd ar gyfer derbyn plant.

Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar staff?

Ni wyddom, ar hyn o bryd. Byddai unrhyw gynigion ar gyfer ysgol newydd, gan gynnwys braslun o'r fframwaith staffio'n cael eu datblygu ar y cyd gan y ddau gorff llywodraethu presennol. Byddai'r cynigion manwl wedyn yn destun ymgynghoriad pellach â chymdeithasau proffesiynol ac undebau llafur ac ati cyn i ni ddod i benderfyniad terfynol.

Dogfen Ymgynghori ar gyfer Ysgolion yr Unfed Garrif ar Hugain

A fydd y trefniadau ar gyfer trafndiaeth ysgol yn newid?

Ni chynigir newid polisi trafndiaeth ysgolion fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd y cyngor yn parhau i gynnig trafndiaeth yn rhad ac am ddim i holl blant cymwys y dalgylch sy'n byw ymhellach na 3 milltir o'r ysgol, beth bynnag a fo canlyniad yr ymgynghori.

Ydych chi'n ystyried newid Ysgol Gyfun Bro Morgannwg neu Ysgol Gyfun Sant Richard Gwyn?

Nac ydym, Ysgol Gyfun Y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren yw'r unig ysgolion yr ydym yn ystyried eu newid.

Pa waith arall a fyddai'n cael ei wneud er mwyn asesu effaith y newid posibl hwn?

Wrth ddatblygu'r cynigion gyda'r cyrff llywodraethu, byddem yn cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn sicrhau na chât'r cynigion effaith andwyol ar unrhyw grŵp penodol yn y gymdeithas. Byddem hefyd yn cynnal Asesiad Effaith Gymunedol er mwyn cael osgoi cymaint o effeithiau negyddol ag sy'n bosibl.

Dyddiadau Allweddol

Pa ddyddiadau a gynigiwyd ar gyfer yr ymgynghoriad?

9 Medi 2013

Bydd y cyfnod ymgynghori'n cychwyn. O'r dyddiad hwn ymlaen, caiff trigolion y Fro fynegi eu barn un ai ar-lein ynteu drwy ysgrifennu atom.

25 Hydref 2013

Daw'r cyfnod ymgynghori i ben. Ni chaiff unrhyw ymateb ei dderbyn ar ôl y dyddiad hwn.

16 Rhagfyr 2013

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr ymgynghori ac yn penderfynu p'un ai a ddylid datblygu'r cynigion ar gyfer ysgol gydaddysgol â chyrff llywodraethu'r ysgolion ai peidio.





Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Ysgolion Uwchradd Cydaddysgol (Cymysg) yn Y Barri

Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod atebwyr yn cael gwybod y canlyniadau a'r camau nesaf yn y broses ymgynghori. Bydd hefyd yn rhoi gwell amcan o gyrhaeddiad yr ymgynghoriad.

Enw

Cyfeiriad

Côd Post



Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i: Ysgol Uwchradd Gydaddysgol Y Barri,
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, Cyngor Bro Morgannwg, RHADBOST SWC2936 Y Barri CF63 4GZ

Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad Ysgolion yr Unfed Garrif ar Hugain

Er mwyn cael dweud eich barn am ddyfodol ysgolion uwchradd yn Y Barri, llenwch y ffurflen hon a'i hanfon yn ôl yn yr amlen radbost i'r cyfeiriad isod.

Ysgolion Uwchradd Cydaddysgol yn Y Barri

Cwestiwn 1 **Safbwynt pw y sy'n cael ei fynegi yn eich ymateb? (ticiwch y blwch):**

Rhiant Disgybl Trigolyn Lleol Llywodraethwr Aelod o staff

Rhywun arall (rhowch fanylion)

Cwestiwn 2 **Os ydych yn rhiant neu'n warcheidwad plentyn (neu blant) sy'n mynychu ysgol yn y Fro ar hyn o bryd, enwch yr ysgolion perthnasol:**

Cwestiwn 3 **Beth yw eich barn ynglŷn â newid i addysg uwchradd gymysg yn Y Barri? (Cwestiwn dewisol yw hwn. Does dim rhaid i chi ateb.)**

Cwestiwn 4 **Ydych chi o blaid y newid i addysg uwchradd gymysg yn Y Barri o ran egwyddor?**

Ydw **Nac ydw**

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i:

Ysgol Uwchradd Gydaddysgol Y Barri,

Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid,

Cyngor Bro Morgannwg, RHADBOST SWC2936, Y Barri CF63 4GZ

Cewch lenwi'r ffurflen hon ar-lein drwy fynd i

www.valeofglamorgan.gov.uk/barryschools

neu cewch anfon eich sylwadau mewn neges e-bost i consultation@valeofglamorgan.gov.uk

Os ydych yn dewis anfon eich sylwadau mewn llythyr neu neges e-bost, cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad post llawn.